# CYNGOR CYMUNED PISTYLL
# COFNODION CYFARFOD MISOL

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fawrth – 11eg o Hydref, 2022** |
| **AMSER** | **7 y.h.** |
| **LLEOLIAD** | **Capel Tabor, Llithfaen** |
| **CADEIRYDD** | **Sianelen Pleming** |

## 1. CROESO

Croesawodd y Cadeirydd Sianelen Pleming **(SP)** bawb i'r cyfarfod. Diolchodd i LJ am ddefnydd o Tabor i gynnal y cyfarfod.

Yn bresennol heno roedd:
Sara Williams **(SW);** Lois Mercs **(LM);** Lisbeth James **(LJ)**; William Jones **(WJ)** Griffith John Leslie Jones **(GJLJ);** Gethin Jones **(GJ)**; Jina Gwyrfai **(JG)** ar clerc Gillian Thomas **(GT).**

## 2. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Emlyn Williams **(EW**) ac Ynyr Ellis **(YE)**

## 3. COFNODION CYFARFOD MEDI 2022

**a) CYFLWYNO A MABWYSIADU**

Cynigiodd SP gywiriadau i'r cofnodion
- Pwynt 1 - cywiro colli ei daid nid ei nain
- 3 (b) 2 ddim yn gwneud synnwyr tynnu'r yn
- 3 (b) 7 buasai defnyddio gweledіad yn gwneud mwy o synnwyr
- 10 Nid oedd pwyllgor y Ganolfan wedi llythyru gyda'r trigolion, dim ond y rhai sydd â chytundeb parcio.
- 10 Ychwanegu efallai, i ddarllen - I berwyl hyn efallai bydd rhaid i'r Cyngor barhau i wneud cais am fenthyciad
- 12a Newid y colli busnes i ddim yn gallu dadlwytho.

Cynigiodd LJ ac eilio GJLJ cywirdeb i weddill y cofnodion.

**b) MATERION YN CODI**

**I. TWMPATHAU**
Y gwaith i atgyweirio ochrau'r twmpathau ar y rhaglen waith i'w gwneud yn fuan.

**II. LLECHI TO'R GYSGODFA**
Y gwaith i'w atgyweirio bellach wedi ei wneud. Bydd GJLJ yn paratoi anfoneb am nwyddau.

**III. GORDYFIANT PONT BRYN CELYN, LLITHFAEN A PHEN ISAR LON PISTYLL**
Y clerc i lythyru a Phriffyrdd Dwyfor I adrodd bod dim wedi digwydd er gwaethaf ei adrodd ar hynna'n wasanaeth y Cyngor Sir.

| | |
|---|---|
| | IV. **APÊL TAN FOEL**<br>Nid oedd JG wedi derbyn unrhyw ohebiaeth bellach |
| **4.** | **DATGAN DIDDORDEB** |
| | Dim wedi ei ddatgan |
| **5.** | **DIWEDDARIADAU ASEDAU** |
| | Adroddodd GJLJ bod dail a sbwriel wedi cronni yn y gysgodfa ger Awelfryn.<br>Cytunodd GJLJ eu glanhau am y tro. |
| **6.** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** |
| | Dim i'w trafod ar y noson |
| **7.** | **CYNLLUN BLAENORIAETH TRAFFIG – PONT MIN AFON, LLITHFAEN** |
| | Croesawodd yr aelodau wybodaeth bod y Cyngor Sir wedi cytuno rhoi blaenoriaeth i fodurwyr yn gadael y pentref ân Lanaelhaearn. Nid yw'r gwaith wedi ei gychwyn hyd yn hyn. |
| **8.** | **CYNLLUN HYFFORDDIANT STATUDOL CYNGOR CYMUNED** |
| | Y clerc i rannu atodiad 3 1-4 gyda'r aelodau iddynt eu llenwi a'i gyrru nôl erbyn dydd Sul.<br>Cyfarfod nos lun nesa 7.30 yn Nhabor gyda SP, LJ, GJ a'r clerc i weithredu ar yr ymatebion |
| **9.** | **CYNLLUN PEILOT ARDAL DWYFOR** |
| | Adroddodd y clerc mae cais oedd hwn gan Uwch Swyddog Galluogi Tai Cymunedol I fynychu cyfarfod y Cyngor i drafod:<br>• Adnabod beth yw anghenion tai cymunedau Dwyfor<br>• Cael gwell dealltwriaeth o anghenion tai yn y Ward<br>Cytunodd yr aelodau ymestyn gwahoddiad iddi i'r cyfarfod nesaf. |
| **10.** | **Y GANOLFAN** |
| | Adroddodd SP bydd y bollards ar y mannau parcio yn cael eu gosod fis Tachwedd<br>Nid oedd diweddariad pellach parthed y grant. |
| **11.** | **MAES PARCIO, NANT** |
| | Nid oedd diweddariadau pellach |

*LLOFNODWYD ............................................................................ DYDDIAD ............................................................................*

| | |
|---|---|
| **12.** | **MATERION LLEOL** |
| | **a)** **<u>TWLL AR OCHOR Y LON GER UWCH Y DON PISTYLL</u>**<br>Adroddodd WJ am dwll oedd wedi ymddangos ar ochor y lon sydd yn creu peryglon i gerddwyr - y clerc i adrodd i Briffyrdd Dwyfor<br><br>**b)** **<u>DWR YN RHEDEG O'R WAL I LAWR Y FFORDD HEIBIO TABOR</u>**<br>Dwr yn rhedeg i lawr y lon o gornel isaf gau Treddafydd sydd ar y gornel uwchben Tabor. Nodwyd bod y dŵr yn rhedeg yn gyson ac yn pydru ochor y lon. Yn ogystal i hyn bydd problemau pellach gyda rhew fydd yn creu materion diogelwch yn ystod y gaeaf.<br><br>**c)** **<u>LON GROES PISTYLL I NEFYN</u>**<br>Adroddodd GJ bod y lon nawr yn cael ei adnabod fel Bwlch Gwynt yn hytrach na Lon Groes. GJ i ysgrifennu paragraff yn esbonio'r broblem a'r clerc i'w gyrru ymlaen i Bleddyn ANHE i ofyn am adborth.<br><br>**d)** **<u>TUDALEN FB I BISTYLL</u>**<br>Adroddodd GJ nad oedd unrhyw ddarpariaeth i hysbysebu trigolion Pistyll am faterion yn codi.<br>Cynigiodd yr aelodau i GJ gychwyn tudalen FB i'r pwrpas hwn.<br><br>**e)** **<u>CYFARFOD GYDAG AELODAU'R CYNGOR SIR</u>**<br>Roedd y Cyngor yn flaenorol wedi derbyn ymateb gan Reolwr Traffic a Phrojectau'r Cyngor Sir yn hysbysebu nad oedd modd i swyddog o'r adran fynychu cyfarfod gyda'r aelodau i drafod materion diogelwch yr ardal hyd nes Hydref o ganlyn salwch hir dymor a phrinder staff.<br>Y clerc i ail lythyru gydag ef a chynnig cyfarfod yn ystod y dydd ar ddyddiad cyfleus, argymell hanner tymor. |
| **13.** | **GOHEBIAETH A GWYBODAETH** |
| | **a)** **<u>FFLIW ADAR A CHEIDWAID DOFEDNOD LLEOL</u>**<br>Y clerc i'w hail rannu gyda SP a GJ iddynt gael eu rhannu ar dudalennau FB Pistyll a Llithfaen.<br><br>**b)** **<u>ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL - CHWEFROR 2023</u>**<br>Dim sylwadau i'w gweithredu<br><br>c) **<u>EIN LLWYBRAU EIN DYFODOL - www.ramblers.org.uk/einllwybraueindyfodol</u>**<br>Y clerc i arwyddo'r ddeiseb ar ran y Cyngor |
| **14.** | **CYLLID** |
| | **a)** **<u>CYSONIAD A RHAGAMCANION 2022/23</u>**<br>Cymeradwywyd y cysoniad a'r rhagamcanion gyda'r aelodau yn cytuno eu cywirdeb |

*LLOFNODWYD ........................................................................ DYDDIAD ........................................................................*

**b)** **CYFRIFLEN BANC**

| **CYFRIF CYFREDOL – 1 o Fedi i 30 o Fedi 2022** | |
|---|---|
| | |
| Balans cychwynnol | 16,715.02 |
| Taliadau i mewn | 0.00 |
| Taliadau allan | 789.09 |
| Balans terfynol | 15,925.93 |

| **CYFRIF CADW – 7 o Fai i 6ed o Fedi 2022** | |
|---|---|
| | |
| Balans cychwynnol | 2,661.01 |
| Taliadau i mewn | 0.99 |
| Taliadau allan | 0.00 |
| Balans terfynol | 2,662.00 |

**c)** **TALIADAU I'W CYMERADWYO**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **201253** | Cyngor Gwynedd | Gwaith Etholiadau | **321.00** |
| **201254** | D. Osborn | Gwair Mynwent Pistyll | **170.00** |
| **201255** | G. Thomas | Cyflog a threuliau | **250.85** |

**15.** **CYFARFOD NESAF Y CYNGOR**

8fed o Dachwedd, 2022 yn Nhabor, Llithfaen

*LLOFNODWYD ............................................................................... DYDDIAD ............................................................................*